# Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, 5 Medi 2024, 10:30 Cynhaliwyd yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (y Brifysgol) |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (gadawodd am 11:22) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Fliss Bennee | (FB) | Pennaeth Data |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Alisha Davies | (AD) | Bennaeth yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (gadawodd am 12:05) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio (cyrhaeddodd am 12:19, gadawodd am 12:35) |
| Kirsty Little | (KL) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Leon May | (LM) | Prif Ddadansoddwr Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.5) (cyrhaeddodd am 11:50) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Hannah Lindsey | (HL) | Rheolwr Rhaglen (arsylwi) |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data (cyrhaeddodd am 10:52) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Stephanie Smits | (SSm) | Pennaeth Canser y Boblogaeth (ar gyfer eitem 3.5) (cyrhaeddodd am 11:50) |
| Ffion Thomas | (FT) | Uwch Ddadansoddwr Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.5) (cyrhaeddodd am 11:50) |

Heb eu Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Rebecca Thomas | (RT) | Uwch Ystadegydd ac Arbenigwr Gwybodaeth Canser (ar gyfer eitem 3.5) (cyrhaeddodd am 11:50) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol (Ansawdd a Nyrsio) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:30*

**KRIC 1/2024.09.05 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 5 Rhagfyr 2024.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a restrir uchod.

**KRIC 2/2024.09.05 Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**KRIC 3/2024.09.05 Eitemau ar gyfer Sicrwydd**

**KRIC 3.1/2024.09.05 Diweddariad ar Ffactorau Ffordd o Fyw**

Rhoddodd JM ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ar ffactorau ffordd o fyw ers yr eitem fanwl a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023 a gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn dilyn yr adroddiad diweddaru ym mis Mehefin 2024.

Tynnodd JM sylw at yr 20 rhaglen strategol o dan Iechyd a Llesiant a nododd bod mapiau trywydd yn cael eu creu ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau strategol i fynd i'r afael â pha newid a ddisgwylid a sut y byddai hynny'n cael ei gyflawni. Roedd heriau yn ymwneud ag a oedd digon o ddangosyddion ar waith, pa gerrig milltir y byddai eu hangen a thros ba amserlen y dylid olrhain cynnydd. Roedd disgwyl i'r mapiau trywydd gael eu cymeradwyo erbyn mis Mawrth 2025.

Nododd JM y nod o ddefnyddio model matrics ar gyfer newid, a oedd yn cynnwys asesu lle'r oedd angen ymyrraeth fiolegol neu seicolegol a beth y gellir ei gyflawni dros wahanol amserlenni. Dywedodd JM hefyd y byddai craffu ar y mapiau trywydd yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd o gynnydd tymor byr a hirdymor. Croesawodd SG y mapiau trywydd ac awgrymodd y gellid eu hystyried yn y cyfarfod o gadeiryddion pwyllgorau i gysoni gwaith KRIC a QSIC. Gellir gwneud hyn fel darn o waith cydbwyllgor, y gellid ei wneud fel gweithdy cyn dod i sesiwn Datblygu Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024.

Heb eu Cadarnhau

**Cam Gweithredu: LB/DC/SG**

Tynnodd IB sylw at y ffaith fod dealltwriaeth ynghylch y tueddiadau presennol a'r dirwedd iechyd, ac mai'r camau nesaf fyddai nodi a fyddai'r rhaglenni presennol yn sicrhau newid a pha ddangosyddion y byddai eu hangen i'w monitro.

Dywedodd y Pwyllgor fod angen mwy o fanylion am amlder y mesurau i fonitro ac arddangos newid. Nododd JM fod disgwyl i Adroddiad Perfformiad Integredig Mis 5 gael ei gyflwyno i'r Bwrdd, ac y byddai'r mapiau trywydd yn cynorthwyo gyda'r angen i wella'r cyfathrebu o ran amserlenni ar gyfer newid. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y dylid ymchwilio i ddiffyg newid mewn dangosyddion er mwyn cael eglurhad. Byddai'n ddefnyddiol cymharu â data gan gyrff iechyd cyhoeddus yng ngwledydd eraill y DU.

Tynnodd IB sylw at y ffaith fod y dangosyddion yn cael eu cefnogi gan waith y dangosfwrdd trosolwg cyflym, ond bod her wedi codi yn sgil atal dros dro Arolwg Cenedlaethol Cymru er mwyn ei ailgynllunio. Byddai IB yn gweithio gydag LN ac arweinwyr isadrannau i ddod o hyd i ddangosyddion amgen. Cytunodd IB i ddod â throsolwg o'r fframwaith dangosydd blaenoriaeth strategol i gyfarfod mis Rhagfyr i roi trosolwg/sicrwydd.

**Cam Gweithredu: IB**

Awgrymodd y Pwyllgor hefyd gynnal asesiad o unrhyw themâu cyffredin yn y dangosyddion i gyd er mwyn cynorthwyo a symleiddio'r gwaith o'u monitro. Nododd JM y byddai angen datblygu cwestiynau i brofi a datblygu'r mapiau trywydd, a chytunodd i drefnu gweithdy i ymdrin â hyn cyn sesiwn Datblygu'r Bwrdd.

**Cam Gweithredu: JM**

Diolchodd y Pwyllgor i JM a'i dîm am y trosolwg o raglenni yn y Gyfarwyddiaeth hon a **chafodd sicrwydd** bod gwaith wedi parhau i gryfhau ac adeiladu ar ddefnyddio data, tystiolaeth ac ymchwil i lywio camau gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd er mwyn sicrhau bod ymddygiad iach yn effeithio cymaint â phosibl ar iechyd a llesiant y boblogaeth mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth ein Strategaeth Hirdymor.

| KRIC 3.2/2024.09.05 | Iechyd y Cyhoedd Academaidd |
|---|---|

Rhoddodd AD/EDL ddiweddariad ar gyflwr y system iechyd y cyhoedd academaidd o ran ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys y themâu allweddol presennol a ffocws ar y camau nesaf.

Nododd EDL y cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymchwil Gofal Iechyd Cymru ac academyddion o Gymru/DU. Tynnwyd sylw at dair thema allweddol:

- Mae gweithgarwch ymchwil iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn cael effaith ryngwladol, ond mae cyllid wedi bod yn lleihau ac roedd diffyg seilwaith angenrheidiol.

Heb eu Cadarnhau

- Diffyg cynaliadwyedd a chynllunio hirdymor i gadw capasiti gweithlu hanfodol ac ymchwilwyr iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Roedd hyn oherwydd diffyg datblygu sgiliau a chamu ymlaen mewn gyrfa i alluogi ymchwilwyr i lenwi rolau'r rhai oedd ar fin ymddeol.
- Nod ar draws y system iechyd y cyhoedd academaidd yw i Iechyd Cyhoeddus Cymru arwain ar y gwaith o adeiladu ar rwydweithiau presennol a chreu cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chysylltedd.

Nododd EDL nodau ochr yn ochr â'r fframwaith strategol a oedd yn cynnwys datblygu meysydd o gryfder craidd a meithrin perthynas â phartneriaid/arianwyr y DU a rhyngwladol eraill, i sicrhau bod ymchwil yng Nghymru yn cynyddu ei phroffil a bod perfformiad yn gystadleuol ac yn ymatebol.

Ar gyfer y camau nesaf, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Medi 2024. Nododd EDL hefyd fod trafodaethau wedi'u cynnal ag arweinwyr ymchwil Prifysgolion mewn cyfarfod Ymchwil Gofal Iechyd Cymru ym mis Awst, ac y byddai EDL/IB yn mynd i gyfarfod bwrdd Rhwydwaith Arloesi Cymru ym mis Hydref i drafod y gwaith hwn gydag Is-gangellorion Ymchwil prifysgolion ochr yn ochr â chael cyfarfodydd un i un i ennill cefnogaeth ar gyfer y gwaith hwn.

Cefnogodd y Pwyllgor y ffocws ar flaengynllunio ar gyfer gyrfaoedd ymchwil, a nododd y problemau parhaus o ran diswyddo ym mhrifysgolion y DU a allai effeithio ar gyflymder/gallu cynnal ymchwil. Awgrymwyd y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru fwrw ymlaen â sgyrsiau gyda phrifysgolion ynghylch ffrydiau newydd o ddysgu/addysgu a fyddai o fudd i ddatblygu gweithlu prifysgolion ac iechyd y cyhoedd yn ehangach. Anogodd y Pwyllgor hefyd gynnal adolygiad mewnol o gyfleoedd i arbenigwyr mewn hyfforddiant ennill sgiliau academaidd a sgiliau gwasanaeth ac awgrymodd y dylid trafod hyn yn y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Rhoddodd y Pwyllgor awgrymiadau hefyd ar sut i fynd i'r afael â rhai o'r materion, megis mapio cyfleoedd ariannu, creu dull partneriaeth i adfywio'r dirwedd ymchwil a pherthnasoedd â chyllidwyr sector preifat/ymchwil a gwella seilwaith i ddenu ac annog meysydd ymchwil amrywiol i Cymru. Cytunodd IB ond nododd y byddai angen rhoi rheolau ar waith ar gyfer ymgysylltu'n ddiogel â'r sector preifat.

**Cafodd** y Pwyllgor **sicrwydd** fod y gwaith o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yn mynd rhagddo gyda threfniadau llywodraethu a goruchwylio priodol.

| **KRIC 3.3/2024.09.05** | **Gweithredu Strategaeth Ddigidol a Data** |
|---|---|

Darparodd IB/FB ddiweddariad ar weithrediad y Strategaeth Ddigidol a Data ers y diweddariad diwethaf ym mis Mawrth 2024. Dangosodd y diweddariad hwn y cynnydd o ran trawsnewid y trywydd yn rhaglen waith wedi'i llywodraethu.

Nododd FB fod yr adroddiadau'n canolbwyntio ar bum rhaglen waith fawr er mwyn dangos y cerrig milltir dros y tair blynedd nesaf ac unrhyw dagfeydd a ragwelir. Nododd FB hefyd y gwaith o sicrhau bod casgliad o ddefnyddwyr perthnasol yn ymwneud â'r rhaglenni, a bod systemau cyfredol yn parhau i fod yn weithredol yn ystod unrhyw

Heb eu Cadarnhau

uwchraddio neu ychwanegu nodweddion. Tynnodd FB sylw at y gwaith o asesu pa waith rheolaidd y gellid ei oedi i ganiatáu ffocws ar brosiectau mwy pe byddai angen.

Nododd y Pwyllgor fod angen mwy o dryloywder ynghylch llywodraethu'r rhaglen er mwyn rhoi mwy o sicrwydd. Dywedodd FB fod yr iteriad cyntaf o reoli portffolio wedi'i gwblhau ar gyfer y Bwrdd Rhaglen, ac y gellid dangos i'r Pwyllgor samplau o'r ddogfen cychwyn rhaglen a'r cylch gorchwyl ar gyfer llywodraethiant y bwrdd rhaglen a'r Awdurdod Dylunio Digidol a Data (DDDA). Byddai'r rhain yn cael eu cymeradwyo'n gyntaf gan y Tîm Gweithredol Busnes ac yna'n cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ym mis Rhagfyr.

**Cam Gweithredu: FB**

**Cafodd** y Pwyllgor **sicrwydd** fod y gwaith o gyflawni'r portffolio digidol a data yn mynd rhagddo gyda llywodraethu priodol a bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am gyflawni.

| | |
|---|---|
| **KRIC 3.4/2024.09.05** | **Rheoli Risg** |
| **KRIC 3.4.1/2024.09.05** | **Cofrestr Risgiau Strategol** |

Darparodd SS/DG drosolwg o Risgiau Strategol 1 a 2 sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Amlygodd SS y cynnydd gyda'r cynllun datblygu Rheoli Risg, a oedd yn cynnwys adroddiad terfynol gan gydweithwyr yn Grant Thornton a oedd â'r nod o gryfhau gweithrediad y cynllun. Byddai'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Medi ac i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2024, a byddai'r CRR yn cael ei hadolygu gan y Tîm Arwain ym mis Medi.

- Risg Strategol 1 - Roedd cynnydd wedi'i wneud gyda statws dynodi tuedd yn dangos gwyrdd er na fu unrhyw newid yn y sgôr ers y cyfnod adrodd diwethaf.
- Risg Strategol 2 - gwaith o ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol a chymryd mwy o ddata o DATIX i ddangos bod y broses rheoli risg wedi'i sefydlu.

Ar gyfer adrodd ar risg yn y dyfodol, nododd DG y nod o gymryd mwy o wybodaeth a data o DATIX i ddangos bod prosesau rheoli risg wedi'u sefydlu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Nododd JM y gwaith a wnaed i feithrin perthynas â chyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd, ac ar yr angen i ganolbwyntio ar gysylltu camau gweithredu tymor byr a hirdymor â mapiau trywydd er mwyn nodi cynnydd a meysydd i'w gwella.

Tynnodd SG sylw at rôl Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn y system bresennol ac awgrymodd wahodd cydweithwyr sy'n Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i siarad am eu gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cyfarfod Pwyllgor neu Fwrdd yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: LB/IB/JM**

Heb eu Cadarnhau

Heb eu Cadarnhau

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Risgiau Strategol 1 a 2 a chafodd **sicrwydd** ynghylch eu rheolaeth.

| **KRIC 3.4.2/2024.09.05** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Nododd SS y byddai diweddariadau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu rhoi ar lafar gan fod yr adolygiad diwethaf o'r gofrestr gan y Tîm Arwain wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2024 a'r nesaf i'w gynnal ar 19 Medi 2024. Roedd amseru'r broses hon yn cael ei adolygu.

Tynnodd DG sylw at y ddwy risg o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor (1648/1531), a bod y rhain wedi'u hadolygu ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2024 gan y Tîm Arwain.

- Risg 1648 – gostyngwyd y sgôr targed i bedwar gan fod asesiad effaith wedi'i ddiweddaru wedi'i gyflwyno gan y Tîm Ymwrthedd Gwrthficrobaidd ac roedd datrysiad tair rhan wedi'i awgrymu.
- Risg 1531 – roedd yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan y Pennaeth Data, gyda gwaith lliniaru Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei wneud ym mis Awst ac adolygiad pellach erbyn 16 Medi. Cynhaliwyd adolygiad gan DDDA ar 2 Medi a byddai'n cael ei raeadru er mwyn i aelodau ddiweddaru cyfeiriaduron ar gynnydd.

Nododd IB fod Risg 1648 yn ymwneud â dibyniaeth ar Audit Plus i ddarparu data ar Ofal Sylfaenol a brechiadau, a'r risg o fethu â chael mynediad ato yn sgil cau'r gwasanaeth pe bai brigiad o achosion. Sicrhaodd IB y Pwyllgor fod Gofal Iechyd Digidol Cymru (IGDC) wedi sylwi ar hyn a bod camau lliniaru yn cael eu cymryd.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru ac ynghylch rheoli risgiau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **KRIC 3.4.3/2024.09.05** | **Digwyddiadau'n ymwneud â System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS)** |
|---|---|

Rhoddodd SS ddiweddariad llafar ar y gwaith a wnaed i adolygu gwahanol agweddau ar y System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS) ar ôl i achosion o dorri data CSIMS gynyddu a phryderon parhaus.

Tynnodd SS sylw at y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd a'r cyfle i ddysgu am lywodraethiant a phrosesau CSIMS. Nododd SS fod cyfarfodydd cwmpasu wedi'u cynnal i ddeall yn fanylach CSMIS a materion yn gysylltiedig â'r system ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Tîm Gweithredol Busnes a Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn y dyfodol.

Awgrymodd y Pwyllgor y gallai hyn hefyd fod yn addas fel eitem i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ymdrin â hi. Cytunodd LB i ychwanegu hwn fel eitem i'r grŵp Cadeiryddion i'w drafod.
**Cam Gweithredu: LB**

| **KRIC 3.5/2024.09.05** | **Anghydraddoldebau a Chanser** |
|---|---|

Darparodd LN/RT grynodeb o ganfyddiadau cam un y prosiect Anghydraddoldebau Canser gan ddefnyddio data cyfrifiad 2011. Roedd y prosiect hwn yn edrych ar gyfraddau digwydded canser yng Nghymru yn ôl ffactorau demograffig-gymdeithasol. Roedd cam un yn cynnwys newidynnau ethnigrwydd, galwedigaeth, economaidd weithgar/wedi ymddeol a gorlenwi.

- Defnyddiwyd colofn ethnigrwydd gyda data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) i gael darlun cyflawn o wahaniaethau mewn achosion o ganser rhwng grwpiau oedran ac ethnigrwydd. Nododd mai pobl o gefndir ethnig gwyn oedd yn cyfrif am 96.4% o'r achosion a gafodd eu diagnosio yng Nghymru rhwng 2011 a 2020.
- Roedd data gorlenwi (nifer y bobl fesul ystafell) yn awgrymu cysylltiad rhwng canser a statws economaidd/oedran gan fod y rhai â llai o ystafelloedd nag sydd eu hangen, neu un ystafell sbâr (yn debygol o fod yn hŷn), yn dangos cyfraddau uwch.
- Dangoswyd cyfraddau uwch mewn galwedigaethau lle'r oedd angen safonau addysg is (dim data oedran cyfrifiad 2021 ar gael)

Tynnodd RT sylw at y ffaith y byddai cam dau'r prosiect yn defnyddio data cyfrifiad 2021 a dadansoddiadau amlamryweb, ac y byddai'n ceisio cynyddu'r nodweddion gwarchodedig a aseswyd.

Gofynnodd y Pwyllgor pam y dewiswyd gorlenwi fel newidyn ac awgrymodd fod angen dadansoddiad o ddata sgrinio a'r llwybr y mae cleifion yn ei gymryd i gael diagnosis er mwyn cael trosolwg o'r llwybr triniaeth canser cyfan. Nododd LN ei bod yn nod i gysylltu data sgrinio a chanser yn y dyfodol, ond nad oedd data ethnigrwydd yn y maes hwn ar gael ar hyn o bryd yn nata'r cyfrifiad. Esboniodd LN fod data gorlenwi yn cael eu defnyddio fel procsi ar gyfer amddifadedd ac y byddai'n helpu i nodi meysydd pellach i'w harchwilio. Nododd IB y gallai dadansoddiad pellach ystyried y gyfradd farwolaethau yn ôl grŵp oedran/math o ganser, ac y dylid cyhoeddi'r canfyddiadau hyn ar ôl eu cwblhau gan nad oedd y dadansoddiad hwn o boblogaeth Cymru erioed wedi'i gynnal o'r blaen. Gofynnodd y Pwyllgor am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith hwn.

**Cam Gweithredu: KL/FL**

Diolchodd SG i LN ac RT am y cyflwyniad diddorol, a **nododd** ac **ystyriodd** y Pwyllgor y cynnydd a oedd yn cael ei wneud yn erbyn yr ymrwymiad i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd.

| **KRIC 3.6/2024.09.05** | **Monitro Effaith ICC - Adroddiad Blynyddol** |
|---|---|

Darparodd KL drosolwg o'r adroddiad blynyddol Monitro Effaith a oedd yn edrych ar ganlyniadau arolygon yn seiliedig ar y fframwaith monitro effaith a gyflwynwyd i'r Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn 2023. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar farn rhanddeiliaid a grwpiau defnyddwyr allweddol. Roedd

Heb eu Cadarnhau

yr adborth wedi'i drosglwyddo i'r perchnogion cynnyrch ac roedd camau ar y gweill i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.

Tynnodd KL sylw at y ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ystyried yn sefydliad ag iddo enw da am fod yn gadarnhaol a dibynadwy. Nododd mai barn defnyddwyr a oedd eisoes yn ymwybodol o'r sefydliad oedd hon a bod angen cymryd camau pellach i gyrraedd defnyddwyr nad ydynt yn ymwybodol o'r sefydliad, drwy fwy o hysbysebu a hygyrchedd i'r wefan. Nododd KL hefyd y gwelliannau mewn ymgysylltu a wnaed yn sgil cyflwyno'r tîm ymchwil defnyddwyr a phecyn cymorth ymgysylltu â defnyddwyr. Byddai canlyniadau arolwg Effaith 2024 yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes cyn eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ym mis Rhagfyr. Llongyfarchwyd KL ar yr adroddiad hwn

**Cam Gweithredu: KL/FL**

Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd pwyntiau dysgu o'r arolwg yn cael eu datblygu, ac a oedd gwaith mapio rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu gwybodaeth. Tynnodd IB sylw at y gwaith a wnaed ar ddatblygu persona er mwyn caniatáu addasu cynnwys ac iaith i wahanol gynulleidfaoedd. Nododd IB hefyd fod llawer o'r camau gweithredu yn gysylltiedig â phrosiect Trawsnewid y We, ac y gallent hwy a KL weithio i fynd i'r afael ag unrhyw gamau nad oeddent yn rhan o'r prosiect.

**Cam Gweithredu: IB/KL**

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** canfyddiadau dull Monitro Effaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a chefnogodd y gweithgareddau sydd ar y gweill i wella effaith y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **KRIC 4/2024.09.05** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **KRIC 4.1/2024.09.05** | **Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd 06 Mehefin 2024** |

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 6 Mehefin fel cofnod cywir a chymeradwyodd y newidiadau a wnaed i'r cofnod gweithredu.

Darparodd IB ddiweddariadau llafar ar gamau gweithredu sydd ar y gweill ers y cyfarfod diwethaf:

- 2024/8 – roedd trafodaethau wedi cychwyn ar hyn a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
- 2024/6 – roedd IB wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru a nododd fod cyfarfod blaenoriaethu ar nodweddion ap GIG Cymru wedi'i drefnu ar gyfer 17 Medi. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **KRIC 4.2/2024.09.05** | **Polisïau i'w cymeradwyo** |

Nid oedd unrhyw bolisïau i'w cymeradwyo yn y cyfarfod hwn.

| | |
|---|---|
| **KRIC 5/2024.09.05** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **KRIC 5.1/2024.09.05** | **Diweddariad ar Gynnydd y Cofnod Gweithredu Archwilio** |

Heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| Nid oedd unrhyw argymhellion Archwilio o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i adrodd arnynt. | |
| **KRIC 5.2/2024.09.05** | **Adroddiadau Archwilio** |
| Nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i'w trafod. | |
| **KRIC 5.3/2024.09.05** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Nododd SG bod angen i SG a DC drafod materion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. | |
| **KRIC 7/2024.09.05** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
| Unrhyw fater arall: Dim.<br><br>Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;<br><br>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **5 Rhagfyr 2024.** | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12: | |

Heb eu Cadarnhau